Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Adroddiad Blynyddol 2020-21 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

**Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn y Saesneg**

**1. Cefndir** 3
**2. Cyflwyniad** 4
**3. Cynnydd o ran cyrraedd ein hamcanion yn ystod 2020/21** 4
**4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu** 11
**5. Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)** 11
**6. Trefniadau caffael** 11
**7. Gwybodaeth am Gyflogaeth** 12
**8. Gweithwyr yn ôl rhywedd a graddfa gyflog ar 31 Mawrth 2021** 19
**9. Ceisiadau am Swyddi** 24
**10. Hyfforddiant i Weithwyr** 28
**11. Gwrandawiadau cwynion cyflogaeth a gwrandawiadau disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 20-21** 32
**12. Gweithwyr a adawodd y Cyngor yn 2020/21** 32
**13. Ymgysylltu ac ymgynghori** 36
**14. Cysylltu â ni** 37

## 1. Cefndir

Fel awdurdod, ein nod yw deall ac ymdrin â'r rhwystrau cydraddoldeb sy'n wynebu pobl er mwyn i bawb gael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Anelwn at sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o bopeth a wnawn ac o'r gwasanaethau a ddarparwn.

Ein nod yw datblygu ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ein helpu i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, i ddatblygu cyfleoedd cyfartal ac i feithrin cysylltiadau da.

Ein nod yw prif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn fewnol ac yn allanol.

Ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-2024 gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020. Dyma'r chwe amcan strategol ar gyfer 2020-2024:

| **Amcan** | **Yr hyn y gobeithiwn ei gyflawni/cefnogi** |
|---|---|
| **Amcan 1: Addysg** | Dylai pawb sy'n cael mynediad at addysg fod yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio a cham-drin mewn lleoliadau addysgol. |
| **Amcan 2: Gwaith** | Hyrwyddo gweithlu mwy cynhwysol a gwella cyfranogiad, llesiant a chyfleoedd ar gyfer datblygu'r rhai a chanddynt nodweddion gwarchodedig. |
| **Amcan 3: Safonau byw** | Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol trwy ystyried effaith unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i bolisïau dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. |
| **Amcan 4: Iechyd a llesiant** | Cefnogi a hyrwyddo iechyd meddwl ac iechyd corfforol da yn ein cymunedau a'n gweithlu a chynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden. |
| **Amcan 5: Diogelwch a pharch** | Sicrhau bod gan bobl yn ein cymunedau fynediad at wasanaethau sy'n eu cefnogi i fyw heb ofni trais neu gam-drin, a'u bod yn cael eu trin â pharch. |
| **Amcan 6: Cyfranogi** | Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan a dangos diddordeb mewn materion sy'n bwysig iddynt, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. |

Yn dilyn hyn, buom yn gweithio gydag amrywiaeth o reolwyr allweddol trwy'r awdurdod i ddatblygu 58 o gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r chwe amcan hyn.

Ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd a chyda grwpiau cydraddoldeb ynglŷn â'r camau gweithredu hyn a rhannodd 647 o gyfranogwyr eu barn gyda ni trwy lenwi arolygon. Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad hwn yma. Yn dilyn hyn, aethom ati i ddatblygu ein cynllun gweithredu a chafodd y cynllun hwnnw ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet at 10 Mawrth 2020.

Mae Penaethiaid Gwasanaethau ac uwch-reolwyr gwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau y caiff y camau gweithredu eu cyflawni o fewn eu meysydd gwasanaeth. Bydd y Tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu (sy'n gyfrifol am yr agenda cydraddoldebau) yn sicrhau bod Pwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet o fewn y Cyngor yn cael diweddariadau rheolaidd am y cynnydd ac y bydd adborth yn cael ei roi i bartneriaid, grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

## 2. Cyflwyniad

Dyma ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer y cynllun blynyddol strategol hwn.

Er mwyn paratoi'r adroddiad hwn, aethom ati i goladu data a ddeilliodd o adroddiad blynyddol ein cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r data a gyflwynwyd gan feysydd gwasanaeth a phartneriaid yr adeg honno yn cynnig ffordd barhaus o fonitro cynnydd ar sail ein hamcanion a'n camau gweithredu.

## 3. Cynnydd o ran cyrraedd ein hamcanion yn ystod 2020/21

Gellir crynhoi'r cynnydd allweddol mewn perthynas â'n chwe amcan fel a ganlyn:

### Addysg

- Mae'r ffurflen gyfredol ar gyfer cofnodi digwyddiadau hiliol wrthi'n cael ei hadolygu, ochr yn ochr â dogfen ganllawiau. Bydd y rhain ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gyda phob pennaeth cyn y flwyddyn academaidd newydd. Bydd adroddiadau'n parhau i gael eu rhannu'n flynyddol gyda Phwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet mewn perthynas â digwyddiadau mewn ysgolion. Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu i lywio strategaeth wrth-fwlio ddiwygiedig.

- Ers mis Ebrill 2020, cynigir cymorth digidol unigol i ddysgwyr er mwyn eu galluogi i gael mynediad at ddarpariaeth ddysgu ar-lein. Yn ychwanegol at hyn, gofynnir i bob dysgwr lenwi cynlluniau dysgu unigol a fydd yn helpu i ganfod unrhyw anghenion dysgu a phennu cymorth ychwanegol y gellir ei gynnig yn uniongyrchol gan y tiwtor yn ychwanegol at unrhyw gymorth y gellir ei gynnig gan y gwasanaeth ehangach. Pan fo'r dysgwyr yn datgelu anghenion dysgu, caiff yr anghenion hyn eu cofnodi mewn cynllun cymorth. Mae'r holl gyrsiau a gynigir yn gyrsiau gwahaniaethol sy'n gweddu i alluoedd ac anghenion dysgu amrywiol.

- Ers mis Ebrill 2020, cynigir adnoddau ychwanegol i'r dysgwyr er mwyn eu galluogi i gael mynediad at gyfleoedd dysgu ar-lein. Mae gan y dysgwyr

fynediad at ddyfeisiau fel gliniaduron, cyfrifiaduron lechen ac ati, yn ogystal â mynediad at opsiynau cysylltedd. Mae nifer o ddysgwyr wedi defnyddio dyfeisiau o’r fath er mwyn cymryd rhan mewn cyrsiau.

**Gwaith**

- Mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi canolbwyntio ar anableddau cudd, ymwybyddiaeth o droseddau casineb, dim goddefgarwch tuag at droseddau casineb a mis hanes LHDTC+/Pride. Rhennir gwybodaeth yn fewnol trwy gyfrwng y bwletin staff wythnosol, ‘Bridgenders’. Ymhellach, caiff gwybodaeth am lesiant ar gyfer y staff, lle canolbwyntir ar wytnwch ac iechyd meddwl, ei hyrwyddo trwy gyfrwng ‘Bridgenders’.

- Mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, fel yr oedd fis Mawrth 2020 a 2021, wedi cael ei gofnodi ac mae’n dangos ychydig o welliant bob blwyddyn. Bydd cynllun gweithredu’n cael ei lunio yn ystod 2021/22.

- Yn ystod 2020/21, cynigiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr brentisiaethau i 34 o bobl. Ymchwiliwyd i ragor o gyfleoedd ar gyfer graddedigion a phrentisiaethau a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

- Mae gwaith ar y gweill i hyrwyddo cynllun Hyderus o ran Anabledd – erbyn hyn, mae bathodyn Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd i’w weld ar dudalen swyddi a thudalen Cyfle Cyfartal gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu Hyderus o ran Anabledd ac mae hunanasesiad Hyderus o ran Anabledd wedi’i gynnal a’i gwblhau. Derbyniwyd y bathodyn Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac mae’n ddilys hyd at 28/11/2023.

- Yn ystod 2020-21, cyflwynwyd dau o gyrsiau LHDT ac fe’u mynychwyd gan 17 o gynrychiolwyr.

**Safonau byw**

- Adolygwyd y broses Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Crëwyd gwaith papur newydd ac mae dogfennau hyfforddi a dogfennau canllawiau wedi’u llunio. Adolygwyd y modiwl e-ddysgu EIA er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y broses a gweithrediad y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

- Ceir canllawiau newydd ar y fewnrwyd a chyflwynwyd gweminarau er mwyn sicrhau bod gan y swyddogion fynediad at wybodaeth ynglŷn â’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Adolygwyd y modiwl e-ddysgu EIA er mwyn cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a’r broses EIA newydd. (Ymdrinnir â nifer y gweithgareddau E-ddysgu sy’n ymwneud â’r broses EIA a’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn dan eitem 5 ar gyfer Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb.)

- Rhoddwyd y Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith ar 1 Ebrill 2021 ar gyfer gweithwyr y Cyngor. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar 1,038 o weithwyr, 88% ohonynt yn weithwyr benywaidd.

- Mae cynllun darparu parseli bwyd, sef strategaeth yr awdurdod lleol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, wedi bod ar waith ers Gwanwyn 2020. Byddwn yn parhau i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim hyd at fis Mawrth 2022.

- Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid i'r Gwasanaeth Datblygu Ieuenctid sicrhau bod modd i bobl ifanc mewn angen barhau i gael mynediad am ddim at eitemau mislif, hyd yn oed os oeddynt yn hunanynysu a/neu'n hunanwarchod. Gan uno â chydweithwyr yn y tîm Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol, rhoddwyd ymgyrch ar waith ar y cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw pobl ifanc oedran ysgol at y ffaith fod eitemau o'r fath ar gael. O fewn y deufis cyntaf, llwyddodd y postiad i gyrraedd mwy na 42,000 o bobl, ac yn sgil hynny danfonwyd eitemau o'r fath i gartrefi 700 o bobl ifanc. Parhaodd yr ymgyrch trwy'r ail gyfnod clo (Rhagfyr 2020 ymlaen) a byddwn yn parhau i gynnig cyflenwadau dros wyliau'r haf.

**Iechyd a llesiant**

- Mae asesiadau risg Covid-19 ar gael bellach i weithwyr fel y gallant eu llenwi ac asesu eu risg. Pan gaiff risgiau eu pennu, anogir y staff i gael trafodaeth gyda'u rheolwyr fel y gellir pennu, gweithredu ac adolygu camau cefnogol.

- Datblygwyd y protocol Iechyd a Llesiant ac fe'i lansiwyd ym mis Hydref 2020 ar ôl ymgynghori gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Gall y staff ddod o hyd i'r protocol hwn ar y fewnrwyd ac mae amrywiaeth o adnoddau llesiant eraill ar gael hefyd. Penodwyd Swyddog Iechyd a Llesiant rhan-amser, a bydd yn bwrw ymlaen â'r agenda llesiant ac yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r cymorth a'r adnoddau llesiant sydd ar gael.

- Yn 2020-21, cyflwynwyd y cyrsiau canlynol ar y cyd â Camau'r Cymoedd a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF):

    - Ymwybyddiaeth ofalgar – 4 cwrs / 37 o fynychwyr
    - Gwytnwch – 4 cwrs / 45 o fynychwyr
    - Hyder yn y Gweithle – 4 cwrs / 38 o fynychwyr
    - Cyfathrebu yn y Gweithle – 5 cwrs / 50 o fynychwyr

- Datblygwyd dulliau newydd gyda phartneriaid allweddol. Bu cynllun Super-Agers yn cynorthwyo pobl yn eu cartrefi ac mewn cymunedau pan fo hynny'n bosibl, ac fe'i dewiswyd fel un o gynlluniau Enghreifftiol Bevan. Adolygwyd cyfleoedd nofio am ddim mewn perthynas â phobl ifanc ag anableddau a phobl ifanc dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Rhoddwyd rhai rhaglenni ar waith ar ôl i'r lleoliadau gael caniatâd i agor. Crëwyd cymorth ychwanegol yn Halo Leisure ar gyfer gofalwyr sy'n gofalu'n ddi-dâl am grwpiau agored i niwed.

Datblygwyd gweithgareddau digidol 'Halo yn y cartref', yn cynnwys cyfleoedd cynhwysol. Fe sicrhaodd Awen bod mwy o adnoddau llyfrgell digidol ar gael, ynghyd â chynyddu gwasanaethau danfon llyfrau ac ati trwy gyfrwng y gwasanaeth llyfrau yn y cartref. Mae'r rhaglen 'Teimlo'n Dda am Oes' wedi cynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia a nam gwybyddol, yn cynnwys datblygu gwybodaeth a sgiliau digidol.

- Datblygwyd dulliau newydd o gynnig cymorth o bell i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd, yn cynnwys cyfleoedd digidol. Mae Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr (BING) wedi cael cymorth i ddwyn grwpiau cymunedol ynghyd i ddatblygu dulliau cydweithredol. Mae'r gwaith yn wahanol i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd diweddar, ond mae wedi ymestyn cyfleoedd i nifer o bobl wrth symud ymlaen. Mae'r arfer o weithio mewn partneriaeth wedi parhau o fewn y rhanbarth gyda Chwaraeon Anabledd Cymru.

- Cyflawnwyd ein cynllun digonolrwydd cyfleoedd chwarae a lluniwyd adroddiad amdano ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys datblygu rhaglen chwarae yn ystod yr haf ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n destun pryder diogelu. Mae'r rhaglen Parth Teulu Egnïol wedi darparu adnoddau gweithgarwch yn y cartref ar gyfer aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Datblygwyd cyfleoedd digidol i bobl ifanc ac aelwydydd sy'n gysylltiedig â'r tîm plant anabl, a hefyd rhoddwyd cymorth i grwpiau 'rheini sy'n ofalwyr' yn y trydydd sector er mwyn iddynt allu datblygu eu cyfleoedd a'u hadnoddau eu hunain. Mae gwasanaethau pobl ifanc egnïol wedi rhoi adnoddau i ysgolion a phartneriaid cymunedol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ac ategu eu llesiant.

- Mae'r Cyngor wedi hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd fel ymwybyddiaeth o awtistiaeth, y cynllun laniardiau sy'n arwydd o anabledd cudd, ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Bydd gweithgareddau hyrwyddol yn parhau yn 2020-2022 trwy gyfrwng calendr o ddigwyddiadau a diwrnodau ymwybyddiaeth.

### Diogelwch a pharch

- Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu De Cymru a grwpiau lleol er mwyn sicrhau y bydd modd monitor unrhyw dueddiadau a mannau problemus, a delio'n briodol â nhw. Caiff gwaith ymgysylltu rheolaidd gyda grwpiau perthnasol ac adroddiadau wythnosol eu trafod gyda Swyddog Troseddau Casineb lleol.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau cydraddoldeb yn Fforwm Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr (BCCEF). Mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r gymuned, sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau, yn cyfarfod bob chwarter i rannu arferion, i dderbyn gwybodaeth ar y cyd ac i gael hyfforddiant. Gwahoddir yr holl aelodau i rannu gwybodaeth am y Fforwm Cydlyniant gyda sefydliadau eraill, gyda'r nod o gynyddu'r aelodau a'r gynrychiolaeth.

- Penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr goffáu Diwrnod Cofio'r Holocost trwy gynnal rhith-ddigwyddiad. Cafodd y Pafiliwn Mawr a'r Swyddfeydd Dinesig eu goleuo gan oleuadau porffor. Y thema ar gyfer digwyddiad 2020, a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Cofio'r Holocost, oedd 'Goleuni yn y tywyllwch'. Mae'r thema hon yn gofyn i bawb ystyried gwahanol fathau o 'dywyllwch', er enghraifft erlid ar sail hunaniaeth, camwybodaeth, atal cyfiawnder; ynghyd â ffyrdd gwahanol o gynnig 'goleuni', er enghraifft gwrthsefyll, cydsefyll, achub a thaflu goleuni ar gamwirioneddau. Hyrwyddwyd Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd trwy oleuo'r Swyddfeydd Dinesig â goleuadau gwyrdd; a blwyddyn union ar ôl cyfnod clo cyntaf y coronafeirws, fe wnaethom gydweithio â Halo i oleuo'r Pafiliwn Mawr i gofio'r holl bethau a aberthwyd a'r bobl a gollodd eu bywydau. Gweithiodd y Cyngor gyda phartner-sefydliadau yn Fforwm Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr i rannu gwybodaeth am Droseddau Casineb, lansiad Dangos, gwaith allgymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig BAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr), y rhwystrau a wynebir gan bobl sydd wedi colli eu golwg ac effaith Covid-19, a hefyd aethpwyd ati i rannu gwybodaeth am Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

- Gweithiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyda saith o awdurdodau lleol eraill i hyrwyddo mis hanes LHDTC+ trwy gynhyrchu a hyrwyddo calendr o ddigwyddiadau, gwybodaeth, gweminarau a sesiynau Holi ac Ateb. Cafodd y calendr ei hyrwyddo ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cynghorau Balch a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Rhannwyd digwyddiad 'Proud Insights' y Cynghorau Balch gyda'r holl staff yn ystod mis hanes LHDTC+. Yn ystod y digwyddiad, daeth aelodau panel o Gyngor Caerdydd a Chyngor Rhondda Cynon Taf ynghyd i drafod gwahanol faterion, yn cynnwys pa mor bwysig yw rhwydweithiau LHDTC+ mewn sefydliadau a sut y gellir datblygu'r rhwydweithiau hynny. Hefyd, cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb gydag aelodau'r panel i drafod y pethau a oedd yn bwysig iddynt. Roedd y digwyddiad ar agor i holl weithwyr y Cyngor ac fe'i cynhaliwyd ddydd Gwener 26 Chwefror 2021.

- Rhwng Rhagfyr 2020 ac Ebrill 2021, cyflwynodd Small Steps Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Eithafiaeth yr Adain Dde Eithafol a Hyfforddiant Gwrth-naratif i 176 o staff, partneriaid allweddol a grwpiau cymunedol.

- Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn hyrwyddo Mis Hanes Pobl Dduon ar sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor, gan hyrwyddo Gwobrau Ieuenctid Hanes Pobl Dduon Cymru, Disgleirdeb Pobl Dduon mewn Gofal Iechyd a Galeri Artistiaid Hanes Pobl Dduon Cymru. Aeth Maer Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ati i greu fideo ar gyfer Mae Bywydau Du o Bwys, a dydd Sadwrn 10 Hydref fe wnaethom gydgysylltu gweminar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Cymru (HCAW) gyda Race Council Cymru – mynychwyd y weminar hon gan Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a rhoddwyd cyflwyniad byr ganddo.

- Er mwyn ymestyn cyfathrebu ledled Cymru, bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chydgysylltwyr lleol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i ariannu gweithgareddau cyfathrebu cymunedol. Nod y gweithgareddau hyn oedd codi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gwasanaethau lleol, ynghyd ag ymgyrchoedd Byw Heb Ofn a gynhelir yn lleol ac yn genedlaethol. Mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol, aeth pobl a oedd wedi goroesi camdriniaeth ati i arwain Gweithgareddau Rhuban Gwyn. Prif ganolbwynt y digwyddiadau oedd yr 16 Diwrnod o Ymgyrchu a'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Menywod a Merched a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, yn cynnwys:

    - Podlediad gan oroeswyr
    - Cynadleddau yn Ne Orllewin Cymru ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol
    - Datblygu adnoddau ar gyfer gweithio gyda goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol
    - Digwyddiad cymunedol ar gyfer eiriolwyr ifanc
    - Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer 'Llysgenhadon Perthnasoedd Iach' mewn ysgolion uwchradd.

**Cyfranogi**

- Mae gwaith yn parhau i lunio fersiynau hawdd eu darllen o ymgynghoriadau, ynghyd â fersiynau ar gyfer pobl ifanc, pan fo hynny'n briodol. Yn ystod y pandemig, fe wnaethom ddibynnu llawer ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i rannu gwybodaeth gyda chymunedau. Ymhellach, lluniwyd fideos, ynghyd â datganiadau traddodiadol i'r wasg a hysbysebion radio, er mwyn rhannu gwybodaeth am ymgynghoriadau hollbwysig.

- Adolygwyd Panel y Dinasyddion er mwyn bwrw golwg ar ddemograffeg a chynrychiolaeth ar draws wardiau yn y fwrdeistref sirol. Bydd cynllun gweithredu ar gyfer 2021/22 yn cael ei ddatblygu i wella cynrychiolaeth wardiau a chynyddu cynrychiolaeth pobl ifanc a phobl â nodweddion gwarchodedig, gyda'r nod o wella amrywiaeth y panel dros y tair blynedd nesaf.

- Datblygwyd canllawiau a hyfforddiant yn ymwneud â llunio dogfennau hygyrch. Mae'r canllawiau ar gael ar y fewnrwyd er mwyn i'r holl staff allu eu defnyddio wrth lunio dogfennau ar gyfer y cyhoedd.

- Aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r afael â gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb (cyfarfodydd ar-lein) gyda Fforwm Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr ynglŷn â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Fwrdeistref Sirol a'r ymgynghoriad Parod at y Dyfodol. Rhannwyd manylion am ymgynghoriad Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr gydag aelodau'r Fforwm Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol trwy e-bost a

gofynnwyd i'r aelodau rannu manylion yr ymgynghoriad gyda'u rhwydweithiau eu hunain.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi hyrwyddo ymgyrchoedd ar Twitter, Facebook, Instagram a gwefan y Cyngor, yn cynnwys:

    - Pythefnos gofal maeth 2020
    - Swyddi gofal cymdeithasol – Gofalwn.cymru
    - Diwrnod myfyrio
    - Digwyddiad Menyw Cymru
    - Maethu LHDT – drwy gydol y flwyddyn
    - Cymorth i bobl ifanc
    - Mae Casineb yn Brifo Cymru – troseddau casineb
    - Arlwy gofal plant
    - Rhoi gwaed
    - Profi cymunedol
    - Wythnos Awtistiaeth y Byd
    - Setliad yr UE
    - Iechyd meddwl ARC – drwy gydol y flwyddyn
    - Etholiad y Senedd
    - Cofrestru i bleidleisio – dinasyddion tramor a phobl ifanc 16 oed
    - Lansio gwefan newydd Cymorth Cynnar
    - Y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd – blwyddyn yr ychen
    - Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol
    - Cymraeg yn y gweithle
    - Lansio gwefan newydd cyfiawnder ieuenctid
    - Wythnos Gwirfoddoli
    - Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
    - Diwrnod y Lluoedd Arfog
    - Diwrnod Shwmae Sumae
    - Diwrnod Amgylchedd y Byd
    - Dydd Santes Dwynwen
    - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
    - 'Pride' digidol
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2020
    - Lansio gwasanaeth cam-drin domestig Assia
    - Wythnos Mabwysiadu a Maethu LHDTC+
    - Diwrnod Rhyngwladol Gweithwyr Cymdeithasol
    - Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
    - Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc
    - Byw heb ofni camdriniaeth
    - Wythnos y Prentisiaid
    - Mis Hanes LHDTC
    - Diwrnod Cenedlaethol Windrush
    - Gweithdai Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer ysgolion)

- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd – goleuo’r Swyddfeydd Dinesig â goleuadau gwyrdd)
- Dydd y Cofio
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Hanukkah
- Diwali
- Iaith Gwaith
- Diwrnod Rhyngwladol y Dynion
- Diwrnod hawliau gofalwyr
- Wythnos ddiogelu

### 4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cynhaliodd y Cyngor 8 o ymgynghoriadau cyhoeddus:

| |
|---|
| Arolwg cyhoeddus o Ganol y Dref |
| Arolwg o Fannau Gwyrdd a Mannau Agored |
| Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig – Ymgynghoriad Polisi Ariannol |
| Ymgynghoriad Teithio Llesol |
| Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ymgynghoriad Ysgolion Cynradd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ymgynghoriad Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2021 |
| Polisi gofalwyr maeth pontio Pen-y-bont ar Ogwr |

Anfonwyd yr arolygon a ganlyn at aelodau Panel y Dinasyddion:

- Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- Ymgynghoriad Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2021

Oherwydd y pandemig Covid-19, ni chynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer Panel y Dinasyddion rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

### 5. Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Rhwng Chwefror 2020 a Mawrth 2021, cwblhaodd 10 o weithwyr hyfforddiant EIA trwy ddilyn modiwl e-ddysgu. Hyd yn hyn, mae 266 o weithwyr wedi cwblhau’r modiwl e-ddysgu.

### 6. Trefniadau caffael

Mae meysydd gwasanaeth yn gweithio gyda’r tîm caffael i sicrhau y caiff asesiadau EIA eu hymgorffori yn y broses gaffael. Yn ôl y rheolau sy’n berthnasol i weithdrefnau contractau, mae’n ofynnol i gontractau sy’n ddarostyngedig i reolau gweithdrefnau

contractau gynnwys cymalau'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, Safonau'r Gymraeg a Chaethwasiaeth Fodern. Caiff materion cydraddoldeb eu hymgorffori'n llwyr yn y broses gaffael, o'r cam cyn-gymhwyso hyd at ddyfarnu'r contract. Caiff cymal yn ymwneud â safonau'r Gymraeg ei gynnwys mewn contractau lle mae'n ofynnol cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio'r iaith Gymraeg.

**7. Gwybodaeth am Gyflogaeth**

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth fel yr oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2021. Yr adeg honno, roedd gan y Cyngor 5929 o weithwyr, yn cynnwys gweithwyr a gyflogid mewn ysgolion.

Cymerir camau bob blwyddyn i wella'r Data Monitro Cydraddoldeb a gedwir mewn perthynas â gweithwyr presennol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data'n ymwneud â phob un o'r nodweddion gwarchodedig (os cafodd y data hwnnw ei ddatgelu).


Defnyddir * ar gyfer niferoedd llai na 5 yn y ddogfen hon, er mwyn sicrhau anhysbysrwydd.





Ar hyn o bryd, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw gategori rhywedd arall oherwydd ar hyn o bryd ni chaiff y data hwnnw ei gofnodi. Cafodd yr wybodaeth a nodir yn yr adroddiad hwn ei chyflwyno'n wirfoddol gan y gweithwyr ac mae'r canrannau'n adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael ar ffurf canran o'r gweithlu cyfan.

Wrth gymharu'r data hwn gyda data sy'n deillio o 31.03.2020, gwelir bod y cyfrif pennau cyffredinol wedi cynnydd 105. Roedd 73% o'r gweithwyr hyn yn fenywaidd.

Dengys Ffigur 1 gyfrif pennau'r gweithlu yn ôl cyfarwyddiaethau ac ysgolion ac mae Ffigur 2 yn nodi manylion am rywedd y categorïau hyn.




*Ffigur 1 – Canran o'r cyfrif pennau*




*Ffigur 2 – Rhywedd yn ôl cyfarwyddiaeth*


Yn Ffigur 3, nodir manylion y gweithlu ar sail gweithwyr amser llawn/rhan-amser ac ar sail rhywedd. Mae'r cyfansoddiad o ran rhywedd wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. O gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru (20/21), mae'r Cyngor yn parhau i fod â chanran uwch o weithwyr benywaidd. Fodd bynnag, yn anochel fe fydd cyfansoddiad y gweithlu yn amrywio'n ôl cwmpas y gwasanaethau mewnol.

**43%**

o'r gweithlu
yn gweithio'n
amser llawn

**57%**

o'r gweithlu
yn gweithio'n
rhan-amser




*Ffigur 3 – Amser llawn/rhan-amser yn ôl rhywedd*

**Anabledd**

Mae 3.36% o'n gweithwyr wedi datgan bod ganddynt anabledd. Dyma gynnydd bach ers 19/20. Roedd yn well gan 8.20% o'r gweithwyr beidio â dweud ac ni ddatganwyd unrhyw beth gan 13.17%.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddal gafael ar ei statws Hyderus o ran Anabledd. Mae'r cynllun hwn yn cynorthwyo cyflogwyr i wneud y gorau o'r talentau y gall pobl anabl eu cyflwyno i'r gweithle ac mae'n ein galluogi i ddefnyddio'r gronfa fwyaf bosibl o dalentau, yn ogystal â chyflogi a dal gafael ar weithwyr o'r radd flaenaf – gweithwyr medrus, ffyddlon a gweithgar. Caiff hyn ei hyrwyddo ar dudalennau swyddi'r Cyngor ac mewn amryfal ymgyrchoedd recriwtio.

Hefyd, caiff y Cyngor ei gynnwys ar wefan SCOPE (elusen cydraddoldeb anabledd). Ymhellach, mae nifer fechan o unigolion ag anabledd wedi bod yn profi'r broses recriwtio ac mae ffurflen gais y Cyngor wedi cael ei diweddaru ar sail yr adborth a gafwyd ganddynt.

Erbyn hyn, caiff yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â swyddi eu cyhoeddi mewn fformat hygyrch ar y we er mwyn i bawb allu cael mynediad atynt.


Mae'r Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth o anableddau cudd trwy ddefnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol a thrwy hyrwyddo'r mater yn fewnol trwy gyfrwng 'Bridgenders'.

**Ethnigrwydd**

Mae Ffigur 4 yn nodi pa ganran o'n gweithlu sydd â chefndir ethnig. Mae gan 1.6% o'r gweithlu gefndir ethnig, sef cynnydd bach ers 19/20. Er mwyn cynnig rhywfaint o gyd-destun, mae amcangyfrifon diweddaraf StatsCymru ar gyfer y boblogaeth (Mehefin 2021) yn nodi bod 1.5% o drigolion y fwrdeistref sirol yn dod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Ymhellach, mae'r Cyngor ymhlith 900 o sefydliadau ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i addewid Dim Hiliaeth Cymru. O'r herwydd, mae wedi cytuno i wrthwynebu hiliaeth a hyrwyddo cymdeithas a gweithle mwy cynhwysol a chyfartal lle bydd gan bob unigolyn yng Nghymru hawl i deimlo'n ddiogel, yn werthfawr ac yn rhan o bethau.

Ymhellach, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda saith o awdurdodau lleol eraill i hyrwyddo mis hanes LHDTC+ trwy gynhyrchu a hyrwyddo calendr o ddigwyddiadau, gwybodaeth, gweminarau a sesiynau Holi ac Ateb. Cafodd digwyddiad 'Proud Insights' y Cynghorau Balch, a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2021, ei rannu gyda'r holl weithwyr yn ystod mis hanes LHDTC+ a daeth aelodau panel ynghyd i drafod amryfal faterion, yn cynnwys pwysigrwydd rhwydweithiau gweithwyr LHDTC+ mewn sefydliadau a sut y gellir datblygu'r rhwydweithiau hyn.





*Ffigur 4 – % Ethnigrwydd y gweithlu*

## Proffil Oedran

Dengys Ffigur 5 broffil oedran y Cyngor. O gymharu ag 19/20, gwelir lleihad o 0.91% yn y grwpiau oedran isaf (16-35); mae'r grŵp oedran 51-55 wedi aros yr un fath; ac mae'r grwpiau oedran 56-66+ wedi cynyddu 1.17%.


Mae gwaith ar y gweill i annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac oedran, a rhoddir pwyslais arbennig ar hyrwyddo gyrfaoedd mewn Llywodraeth Leol ymhlith y rhai sy'n gadael addysg. Datblygwyd rhaglen newydd i raddedigion; fe'i cymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2020 ac mae dau o raddedigion eisoes wedi cael swyddi.




*Ffigur 5 – Proffil oedran*

## Rhywioldeb


Dengys Ffigur 6 fod y rhan fwyaf o'r gweithwyr wedi nodi eu bod yn heterorywiol; ni ddatganwyd yr wybodaeth bersonol sensitif hon gan 42.6% o'r gweithlu.




*Ffigur 6 – Rhywioldeb*

## Statws Priodasol

Nodir statws priodasol gweithlu'r Cyngor yn Ffigur 7. Ni wyddys beth yw statws priodasol bron i 15% o'r gweithwyr ac roedd yn well gan 0.91% o'r gweithwyr beidio â dweud. Mae 44.48% o'r gweithlu'n briod ac mae 23.39% yn sengl.




*Ffigur 7 – Statws priodasol y gweithlu*

## Y Gymraeg

Mae Tabl 1 yn nodi'r sgiliau Cymraeg sydd i'w cael ar hyn o bryd o fewn ein gweithlu. Er mwyn cynnig cyd-destun i hyn, dywedodd 4.57% o weithwyr y Cyngor eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl; dywedodd 2.11% yn ychwaneg eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda; a dywedodd 14.81% eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.

Dywedodd 4.60% o weithwyr y Cyngor eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl; dywedodd 2.60% yn ychwaneg eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn weddol dda; a dywedodd 15.38% eu bod yn gallu darllen rhywfaint o Gymraeg.

Dywedodd 4.17% o weithwyr y Cyngor eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl; dywedodd 2.31% yn ychwaneg eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn weddol dda; a dywedodd 12.75% eu bod yn gallu ysgrifennu rhywfaint o Gymraeg.

Yn achos prentisiaid newydd sy'n dilyn cwrs Gweinyddu Busnes Lefel 2 / 3 gyda TSW, cânt eu hannog yn awr i wella'u sgiliau Cymraeg trwy ddefnyddio Prentis-iaith. Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer prentisiaid sy'n meddu ar ddim, neu fawr ddim, sgiliau Cymraeg ac maent yn galluogi'r prentisiaid i gwblhau eu cymhwyster yn y Gymraeg os dewisant wneud hynny. Mae'r cwrs cyffredinol yn tynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg fel sgìl yn y gweithle.

*Tabl 1 – Y Gymraeg*

| **Siarad Cymraeg** | **Merched** | **Dynion** | **Cyfanswm** | **Darllen Cymraeg** | **Merched** | **Dynion** | **Cyfanswm** | **Ysgrifennu Cymraeg** | **Merched** | **Dynion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 700 | 178 | 878 | Rhywfaint | 736 | 176 | 912 | Rhywfaint | 626 | 130 | 756 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn weddol dda | 107 | 18 | 125 | Yn weddol dda | 128 | 26 | 154 | Yn weddol dda | 113 | 24 | 137 |
| Yn rhugl | 231 | 40 | 271 | Yn rhugl | 233 | 40 | 273 | Yn rhugl | 212 | 35 | 247 |


Dengys Tabl 2 pa ganran o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2021 – sef cynnydd bach ers mis Rhagfyr 2020.

Tabl 2 – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Pen-y-bont ar Ogwr

| Darllen Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg | Deall Cymraeg Llafar |
|---|---|---|
| 17.5% | 16.2% | 22.2% |

### Cyfrifoldebau Gofalu

Dengys Ffigur 8 faint o'r gweithwyr a nododd eu bod yn ofalwyr. Mae 4.78% o weithwyr y Cyngor wedi nodi bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu, ond gwelir bod y ffigur hwn wedi gostwng rhywfaint o'i gymharu â ffigur 19/20.





Ffigur 8 – Gofalwyr

### 8. Gweithwyr yn ôl rhywedd a graddfa gyflog ar 31 Mawrth 2021

Rhoddwyd strwythur cyflog a graddio'r Cyngor ar waith ar 1 Medi 2013 a cheir dull clir a chadarn ar gyfer gwerthuso graddfeydd cymharol y swyddi. Seilir hyn ar rolau a chyfrifoldebau yn hytrach nag ar ffactorau unigol yn ymwneud â'r gweithwyr.

Dengys Ffigur 9 faint o weithwyr sy'n rhan o strwythur cyflog a graddio'r Cyngor. Os oes gan weithiwr fwy nag un swydd, caiff ei gyfrif ar gyfer pob swydd. O'r herwydd, ni fydd y ffigurau a nodir isod yn cyfateb i gyfansymiau eraill yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar gyfrif pennau.

Dyma'r tro cyntaf i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno. Byddwn yn datblygu dulliau pellach o ddadansoddi'r wybodaeth dros amser.




*Ffigur 9 – Gweithwyr yn ôl y Strwythur Cyflog a Graddio*

Mae Tabl 3 yn nodi'r wybodaeth yn ôl rhywedd.


*Tabl 3 – Graddau yn ôl rhywedd (Strwythur Cyflog a Graddio ar 31.03.2021)*

| Graddau | Merched | Dynion |
|---|---|---|
| Graddau JE 1 – 8 (£17,942 - £25,991) | 4160 | 707 |
| Graddau JE 9 – 10 (£27,741 - £32,234) | 218 | 98 |
| Graddau JE 11 – 16 (£33,782 - £52,742) | 325 | 159 |
| Swyddogion JNC (£56,109 - £142,954) | 7 | 10 |
| Swyddogion Soulbury swyddogion ieuenctid eraill (£21,439 - £66,121) | 43 | 8 |
| Athrawon, penaethiaid, dirprwy benaethiaid a dirprwy benaethiaid cynorthwyol (£18,169 - £117,197) | 1048 | 335 |

## Anabledd

Mae Ffigur 10 yn nodi'r rhai sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd, yn ôl gradd. Gwelir bod y mwyafrif o'r gweithlu anabl yn perthyn i Raddau 1-8.

*Ffigur 10 – Anabledd yn ôl gradd*




## Ethnigrwydd

Mae Tabl 4 yn nodi ethnigrwydd y gweithwyr yn ôl gradd. Gan fod y niferoedd yn isel, mae'r grwpiau ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cael eu coladu gyda'i gilydd.

*Tabl 4 – Ethnigrwydd gweithwyr yn ôl gradd*

| Ethnigrwydd | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Swyddogion Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 55.09 % | 4.74 % | 7.39 % | 0.22% | 0.74% | 17.20% |
| Grwpiau ethnig eraill | 1.2% | 0.00 % | 0.20 % | * | 0.00% | 0.17% |
| Heb ddatgan | 7.30% | 0.35 % | 0.24 % | * | 0.10% | 4.99% |

**Proffil Oedran**

Dengys Tabl 5 broffil oedran gweithlu'r Cyngor yn ôl gradd.

*Tabl 5 – Proffil oedran yn ôl gradd*

| Ystod Oedran | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Swyddogion Soulbury a swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16-25 | 3.54% | 0.17% | 0.00% | 0.00% | * | 0.76% |
| 26-35 | 10.56% | 0.81% | 0.93% | 0.00% | 0.24% | 6.19% |
| 36-45 | 13.44% | 1.28% | 2.01% | 0.13% | 0.13% | 7.47% |
| 46-55 | 18.81% | 1.79% | 2.61% | 0.20% | 0.32% | 6.46% |
| 56-65 | 14.91% | 1.05% | 2.14% | * | * | 1.42% |
| 66+ | 2.33% | 0.00% | 0.13% | 0.00% | * | * |

**Rhywioldeb**

Yn Nhabl 6 ceir manylion am gyfeiriadedd rhywiol y gweithwyr a'u graddau. Cedwir gwybodaeth am fwy na 55% o'r gweithlu.

*Tabl 6 – Rhywioldeb yn ôl gradd*

| Rhywioldeb | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Swyddogion Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deurywiol | 0.34% | * | * | 0.00% | 0.00% | * |
| Dynion hoyw | 0.24% | * | 0.12% | 0.00% | 0.00% | * |
| Merched lesbiaidd / lesbiaid | 0.19% | * | * | 0.00% | * | * |
| Heterorywiol | 36.18% | 3.59% | 6.21% | 0.19% | 0.57% | 6.86% |
| Arall | 0.24% | 0.00% | * | * | 0.00% | 0.00% |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1.40% | 0.19% | 0.34% | 0.00% | 0.00% | 0.32% |
| Heb ddatgan | 25.01% | 1.25% | 1.06% | * | 0.25% | 14.98% |

**Statws Priodasol**

Mae Tabl 7 yn nodi statws priodasol gweithlu'r Cyngor yn ôl gradd. Fe wnaeth 855 o'r gweithwyr ddatgan eu statws priodasol.

*Tabl 7 – Statws priodasol yn ôl gradd*

| **Statws Priodasol** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Swyddogion JNC** | **Swyddogion Soulbury a Swyddogion Ieuenctid** | **Athrawon** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priod | 1672 | 162 | 279 | 13 | 21 | 494 |
| Partner | 372 | 26 | 42 | * | 7 | 80 |
| Partneriaeth sifil gyda rhywun o'r un rhyw | * | 0 | * | 0 | 0 | * |
| Wedi gwahanu / ysgaru | 321 | 22 | 47 | 0 | * | 26 |
| Sengl | 846 | 61 | 69 | * | 14 | 396 |
| Gweddw | 42 | * | 6 | 0 | * | * |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 37 | * | 6 | 0 | 0 | 9 |
| Heb ddatgan | 475 | 27 | 13 | * | * | 315 |

**Y Gymraeg**

O ran y Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o'n siaradwyr, ein darllenwyr a'n hysgrifenwyr Cymraeg yn perthyn i Raddau 1-8 ac mae ganddynt amrywiaeth o rolau gweithredol fel y nodir yn Nhabl 8.

*Tabl 8 – Sgiliau Cymraeg yn ôl gradd*

| **Siarad Cymraeg** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Swyddogion JNC** | **Swyddogion Soulbury a Swyddogion Ieuenctid** | **Athrawon** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 533 | 49 | 85 | * | * | 206 |
| Yn weddol dda | 42 | 7 | 10 | * | * | 63 |
| Yn rhugl | 126 | 15 | 21 | 0 | * | 105 |

| **Darllen Cymraeg** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Swyddogion JNC** | **Swyddogion Soulbury a** | **Athrawon** |
|---|---|---|---|---|---|---|


| | | | | | Swyddogion Ieuenctid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 562 | 51 | 85 | * | 8 | 203 |
| Yn weddol dda | 63 | 6 | 14 | * | * | 69 |
| Yn rhugl | 128 | 14 | 21 | 0 | * | 106 |

| **Ysgrifennu Cymraeg** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Swyddogion JNC** | **Swyddogion Soulbury a Swyddogion Ieuenctid** | **Athrawon** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 447 | 42 | 59 | 0 | 8 | 200 |
| Yn weddol dda | 55 | 7 | 15 | * | 0 | 59 |
| Yn rhugl | 114 | 12 | 15 | 0 | * | 102 |

**Cyfrifoldebau Gofalu**

O blith y 283 o weithwyr a gadarnhaodd eu bod yn ofalwyr, mae 3.15% yn perthyn i raddau 1-8, fel y dengys Ffigur 11.

*Ffigur 11 – Gofalwyr yn ôl gradd*




**9. Ceisiadau am Swyddi**

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, derbyniodd y Cyngor 4,532 o geisiadau am swyddi trwy gyfrwng y system Adnoddau Dynol gan 3,029 o unigolion. Roedd y rhain

yn cynnwys ceisiadau mewnol ac allanol. Nid yw'r data'n cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan rai ysgolion. Mewn ambell achos, ni ddatganodd yr ymgeiswyr wybodaeth am bob un o'r nodweddion gwarchodedig. Pan ddefnyddir canran, caiff yr wybodaeth ei seilio ar gyfanswm yr ymgeiswyr.





**Anabledd**

O blith yr ymgeiswyr a aeth ati i ymgeisio am rolau yn y Cyngor, dywedodd 7.36% fod ganddynt anabledd.

**Ethnigrwydd**


Mae'r sefyllfa'n debyg iawn i sefyllfa ein gweithlu yn yr ystyr bod nifer o'r ymgeiswyr (91.85%) wedi dweud eu bod yn wyn; yn achos nifer fechan (3.47%), ni wnaethant ddatgan yr wybodaeth neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.




*Ffigur 12 – Ethnigrwydd yr ymgeiswyr*

## Proffil Oedran


Dengys Ffigur 13 broffil oedran yr ymgeiswyr.




*Ffigur 13 – Proffil oedran yr ymgeiswyr*

## Rhywioldeb

Fel yn achos meysydd eraill yn yr adroddiad hwn, gwelir bod rhywioldeb yr ymgeiswyr yn syrthio i'r categori Heterorywiol yn bennaf; roedd yn well gan 6.31% o'r ymgeiswyr beidio â dweud, fel y dengys y tabl. Fodd bynnag, fe wnaeth 100% o'r ymgeiswyr gyflwyno'r wybodaeth sensitif hon.





*Ffigur 14 – Rhywioldeb yr ymgeiswyr*

| Canran yr ymgeiswyr | |
|---|---|
| Heterorywiol | 88.11% |
| Deurywiol | 2.34% |
| Dynion hoyw | 1.52% |
| Merched lesbiaidd / lesbiaid | 0.96% |
| Arall | 0.76% |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 6.31% |

*Tabl 9 – Rhywioldeb yr ymgeiswyr ar ffurf %*

**Statws Priodasol**

Cadarnhaodd y ganran uchaf o ymgeiswyr (39.49%) eu bod yn sengl; yn achos 3.96%, ni wnaethant gyflwyno'r wybodaeth ofynnol neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud. Mae hyn rywfaint yn wahanol i'n gweithlu, gan fod nifer y bobl briod yn ein gweithlu yn uwch na nifer y bobl sengl.




*Ffigur 15 – Statws priodasol yr ymgeiswyr*

### Y Gymraeg

Mae Tabl 10 yn nodi sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr. O blith y 3,029 o ymgeiswyr, dywedodd 6.11% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, dywedodd 3.76% yn ychwaneg eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 27.93% eu bod yn gallu siarad 'rhywfaint' o Gymraeg.

O blith y 3,029 o ymgeiswyr, dywedodd 5.35% eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl, dywedodd 3.83% yn ychwaneg eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 24.27% eu bod yn gallu darllen 'rhywfaint' o Gymraeg.

O blith y 3,029 o ymgeiswyr, dywedodd 6.14% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, dywedodd 4.79% yn ychwaneg eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 28.82% eu bod yn gallu ysgrifennu 'rhywfaint' o Gymraeg.


*Tabl 10 – Sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr*

| Siarad Cymraeg | Ymgeiswyr | Darllen Cymraeg | Ymgeiswyr | Ysgrifennu Cymraeg | Ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 846 | Rhywfaint | 735 | Rhywfaint | 873 |
| Yn weddol dda | 114 | Yn weddol dda | 116 | Yn weddol dda | 145 |
| Yn rhugl | 185 | Yn rhugl | 162 | Yn rhugl | 186 |

### 10. Hyfforddiant i Weithwyr

Effeithiodd y pandemig Covid-19 ar gyflwyno gweithdai wyneb yn wyneb. Oherwydd hyn, mae'r adroddiad ar gyfer y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar hyfforddiant E-ddysgu yn unig.

Mae'r wybodaeth isod yn nodi nodweddion gwarchodedig y gweithwyr hynny a gymerodd ran mewn hyfforddiant E-ddysgu rhwng 01 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd 2252 o weithwyr (mynychwyr) hyfforddiant E-ddysgu. Pan ddefnyddir canran, caiff yr wybodaeth ei seilio ar gyfanswm y mynychwyr.





**Anabledd**

O blith y mynychwyr a gymerodd ran mewn hyfforddiant, dywedodd 4.53% (102) fod ganddynt anabledd; ni ddatganwyd unrhyw beth gan 7.64%; dywedodd 81.3% nad oeddynt yn anabl; ac ni chyflwynwyd yr wybodaeth ofynnol gan 6.48%.

**Ethnigrwydd**

Mae'r ganran o fynychwyr a nododd eu bod yn wyn yn debyg i'r ganran ar gyfer y gweithlu (85.37%); yn achos nifer fawr o'r mynychwyr (8.39%), ni ddatganwyd unrhyw beth ganddynt neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

| Ethnigrwydd y mynychwyr | |
|---|---|
| Gwyn | 2032 |





| | |
|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 12 |
| Du neu Ddu Prydeinig | 6 |
| Ethnigrwydd cymysg | 9 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | * |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 78 |
| Heb ddatgan | 111 |

*Ffigur 16 – Ethnigrwydd y mynychwyr*

**Proffil Oedran**


O blith y rhai a gymerodd ran mewn hyfforddiant corfforaethol i weithwyr, roedd y ganran uchaf o fynychwyr (31.18%) yn perthyn i'r ystod oedran 46-55. Ar sail hyn, gwelir bod 39.21% o'r gweithlu (1790) o fewn yr ystod oedran hon wedi mynd i'r afael â hyfforddiant corfforaethol o ryw fath yn ystod y cyfnod hwn.




*Ffigur 17 – Proffil oedran y mynychwyr*

**Rhywioldeb**

Fel yn achos y gweithlu presennol, mae'r rhan fwyaf o'r mynychwyr yn perthyn i'r categori Heterorywiol; ni ddatganwyd unrhyw beth gan nifer fawr o'r mynychwyr (28.42%).





*Ffigur 18 – Rhywioldeb y mynychwyr*

| Canran y mynychwyr | |
|---|---|
| Heterorywiol | 67.63% |
| Deurywiol | 0.49% |
| Dynion hoyw | 0.62% |
| Merched lesbiaidd / lesbiaid | 0.53% |
| Arall | * |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 2.18% |
| Heb ddatgan | 28.42% |

*Tabl 12 – Rhywioldeb y mynychwyr*

<u>Statws Priodasol</u>

Fel yn achos y gweithlu, mae'r rhan fwyaf o'r mynychwyr yn briod; ni ddatganwyd unrhyw beth gan 9.4%.




*Ffigur 19 – Statws priodasol y mynychwyr*

**Y Gymraeg**

Mae Tabl 13 yn nodi sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr [y mynychwyr???]. O blith y 2,252 o fynychwyr, dywedodd 5.15% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, dywedodd 2.09% yn ychwaneg eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 20.20% eu bod yn gallu siarad 'rhywfaint' o Gymraeg.

O blith y 2,252 o fynychwyr, dywedodd 5.11% eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl, dywedodd 2.93% yn ychwaneg eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 20.69% eu bod yn gallu darllen 'rhywfaint' o Gymraeg.

O blith y 2,252 o fynychwyr, dywedodd 4.48% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, dywedodd 2.66% yn ychwaneg eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 16.43% eu bod yn gallu ysgrifennu 'rhywfaint' o Gymraeg.

*Tabl 13 – Sgiliau Cymraeg y mynychwyr*

| Siarad Cymraeg | Mynychwyr | Darllen Cymraeg | Mynychwyr | Ysgrifennu Cymraeg | Mynychwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 455 | Rhywfaint | 466 | Rhywfaint | 370 |
| Yn weddol dda | 47 | Yn weddol dda | 66 | Yn weddol dda | 60 |
| Yn rhugl | 116 | Yn rhugl | 115 | Yn rhugl | 101 |

**11. Gwrandawiadau cwynion cyflogaeth a gwrandawiadau disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 20-21**

Mae hyn yn cynnwys gweithwyr a oedd yn gysylltiedig â gweithdrefnau cwynion cyflogaeth fel achwynwyr, y rhai y cyflwynwyd cwynion yn eu herbyn neu'r rhai a oedd yn destun gweithdrefnau disgyblu. Er mwyn cydymffurfio â gofynion diogelu data, ni allwn ddatgelu'r wybodaeth hon. Yn achos pob categori, mae nifer y gweithwyr a swm y data yn rhy fach inni allu dehongli'r wybodaeth mewn modd ystyrlon.

**12. Gweithwyr a adawodd y Cyngor yn 2020/21**

Mae'r data canlynol yn crynhoi nodweddion gwarchodedig y 495 o unigolion a adawodd y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig (ac eithrio rhywedd ac oedran) wedi'i seilio ar wybodaeth a ddatgelwyd yn wirfoddol gan y gweithwyr. Pan ddefnyddir canran, caiff yr wybodaeth ei seilio ar gyfanswm y rhai a adawodd y Cyngor.

**Rhywedd**





## Anabledd

O blith y gweithwyr a adawodd y Cyngor, dywedodd 3.03% (15) fod ganddynt anabledd; ni ddatganwyd unrhyw beth gan 9.29%; dywedodd 81.21% nad oedd ganddynt anabledd; ac ni chyflwynwyd yr wybodaeth ofynnol gan 6.46%.

## Ethnigrwydd

O blith y rhai a adawodd y Cyngor, roedd y rhan fwyaf yn wyn; roedd 1.41% yn dod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.




*Ffigur 20 – Ethnigrwydd y rhai a adawodd y Cyngor*


| Ethnigrwydd y rhai a adawodd y Cyngor | |
|---|---|
| Gwyn | 436 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | * |
| Du neu Ddu Prydeinig | * |
| Ethnigrwydd cymysg | * |
| Heb ddatgan | 52 |

*Tabl 14 – Ethnigrwydd y rhai a adawodd y Cyngor*

## Proffil Oedran

Roedd 25.4% o’r rhai a adawodd y Cyngor yn perthyn i’r ystod oedran 56-65; o blith y rhain, fe adawodd 47% gan eu bod wedi ymddeol, naill ai’n gynnar neu ar ôl cyrraedd


yr oedran priodol – gwirfoddol. Roedd 24% o’r rhai a adawodd y Cyngor yn perthyn i’r ystod oedran 26-35 (mae 10% o’r gweithlu yn perthyn i’r ystod oedran hwn). O blith y rhain, ymddiswyddodd 57% o’r Cyngor a gadawodd 39% gan fod eu contractau wedi dod i ben.




*Ffigur 21 – Proffil oedran y rhai a adawodd y Cyngor*

## Rhywioldeb

Fel yn achos meysydd eraill, roedd y mwyafrif llethol o’r gweithwyr a adawodd y Cyngor yn Heterorywiol; ni ddatganwyd yr wybodaeth sensitif hon gan 33.13%.





*Ffigur 22 – Rhywioldeb y rhai a adawodd y Cyngor*

| Canran y rhai a adawodd y Cyngor | |
|---|---|
| Heterorywiol | 60.61% |
| Deurywiol | * |
| | |
| Dynion hoyw | * |
| Merched lesbiaidd / lesbiaid | * |
| Arall | * |
| Gwell ganddynt | 3.43% |

*Tabl 15 – Ethnigrwydd y rhai a adawodd y Cyngor*

## Statws Priodasol

Ar y cyfan, roedd y rhai a adawodd y Cyngor yn briod neu'n sengl; ni ddatganwyd y nodwedd warchodedig hon gan 10%.




*Ffigur 23 – Statws priodasol y rhai a adawodd y Cyngor*

## Y Gymraeg

Mae Tabl 16 yn nodi sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr [y rhai a adawodd y Cyngor???]. O blith y 495 o weithwyr a adawodd y Cyngor, dywedodd 7.68% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, dywedodd 3.43% yn ychwaneg eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 14.55% eu bod yn gallu siarad 'rhywfaint' o Gymraeg.

O blith y 495 o weithwyr a adawodd y Cyngor, dywedodd 7.74% eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl, dywedodd 3.43% yn ychwaneg eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 16.16% eu bod yn gallu darllen 'rhywfaint' o Gymraeg.


O blith y 495 o weithwyr a adawodd y Cyngor, dywedodd 5.66% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, dywedodd 4.24% yn ychwaneg eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 13.13% eu bod yn gallu ysgrifennu 'rhywfaint' o Gymraeg.

*Tabl 16 – Sgiliau Cymraeg y rhai a adawodd y Cyngor*

| **Siarad Cymraeg** | **Y rhai a adawodd** | **Darllen Cymraeg** | **Y rhai a adawodd** | **Ysgrifennu Cymraeg** | **Y rhai a adawodd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint | 72 | Rhywfaint | 80 | Rhywfaint | 65 |
| Yn weddol dda | 17 | Yn weddol dda | 17 | Yn weddol dda | 21 |
| Yn rhugl | 38 | Yn rhugl | 37 | Yn rhugl | 28 |

**Cyfrifoldebau Gofalu**

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, roedd 26 o'r rhai a adawodd y Cyngor yn ofalwyr, sef 9% o gyfanswm y gofalwyr a gyflogid yn ystod y cyfnod hwn.




*Ffigur 24 – Cyfrifoldebau gofalu*

**Casgliad**

Mae'r Cyngor yn parhau i wella'r modd y mae'n casglu data. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu a yw'r unigolion dan sylw yn dymuno datgelu eu hunaniaeth, sef mater arbennig o sensitif mewn perthynas â rhai o'r nodweddion gwarchodedig. Cynigir cyfleoedd i'n gweithwyr nodi 'gwell gennyf beidio â dweud', ac mae hyn ynddo'i hun yn ddata defnyddiol.

Gan fod ein gweithwyr yn cael eu hannog i nodi gwybodaeth bersonol a sensitif ar system hunanwasanaeth y Cyngor, y gobaith yw y bydd y categorïau 'heb ddatgan' hyn yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf.

**13. Ymgysylltu ac ymgynghori**

Ein nod yw cynnwys barn grwpiau cynrychiadol yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu er mwyn inni allu datblygu gwasanaethau hygyrch i'r cyhoedd ac i'n gweithwyr.

Mae ymgysylltu yn rhan bwysig o'n gwaith, felly mae gennym brosesau penodol ar waith i sicrhau y caiff anghenion pobl eu hystyried ac y bydd modd ymdrin â dimensiynau cydraddoldeb.

Caiff gweithwyr a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig eu cynnwys wrth inni gyflawni, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori'n ymwneud â chanlyniad ein gweithgarwch ymgysylltu er mwyn dangos yn glir sut y mae pobl wedi dylanwadu ar brosesau cynllunio a phenderfynu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 14. Cysylltu â ni

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, neu os hoffech gael copi o'r cynllun mewn fformat amgen, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Cyfeiriad e-bost: talktous@bridgend.gov.uk
Rhif ffôn: 01656 643643
Rhif ffôn testun: 18001 01656 643643
Rhif ffacs: 01656 668126
Yn ysgrifenedig: Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
Mae ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar agor rhwng 8am a 5.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener.
Dyma ein gweithdrefn gwyno.